

**NI YW
MACMILLAN.
CYMORTH CANSER**



**COSTUA
CANSER**

**Y gost gudd o
gael triniaeth**

STORI ROBIN



Robin Reid

Cefais wybod bod gennyf ganser breuannol ym mis Hydref 2000. Teithiais i'r ysbyty 60 o weithiau a hynny bob amser mewn car gan ei bod yn llawer mwy cyfleus ac yn rhatach na theithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Pe byddwn wedi mynd ar y trên byddwn wedi gorfod cerdded tipyn o'r orsaf neu gael tacsï oddi yno. Roedd yn daith gron 16 milltir a chostiai £1.50 mewn petrol bob tro.

Cyn i mi ddechrau fy nghwrs o radiotherapi roedd yn rhaid i mi ymweld â'r ysbyty i gael biopsïau, sganïau ac ymgynghoriadau. Ar yr achlysuron hyn bu'n rhaid i ni roi cymaint o arian â phosibl yn y mesurydd parcïo gan nad oeddem yn gwybod am faint o amser y byddai'r driniaeth yn para ac roedd arwyddion yn rhybuddio am glampïo. Ar bum achlysur gwnaethom wario £15 y dydd ar barcïo.

Roedd fy nghwrs o radiotherapi yn cynnwys 33 sesiwn - bu'n rhaid i mi yrru a pharcïo yn yr ysbyty bob diwrnod gwaith am chwe wythnos. Yn ogystal â thalu'r £1.50 am gostau petrol ar gyfer pob taith roedd yn rhaid i mi dalu £2 bob tro er mwyn parcïo. Ond pan oeddwn hanner ffordd trwy'r cwrs o radiotherapi clywais ddau glaf arall yn sôn am gardïau parcïo - dywedodd y ddau wrthym y gallwn gael cerdyn a fyddai'n fy ngalluogi i barcïo am ddim os oeddwn yn cael radiotherapi. Bûm yn gwneud hynny am weddill fy nhriniaeth, er na allwn ei ddefnyddio pan oeddwn yn mynd i gael sganïau, ymgynghoriadau neu lawfeddygaeth. Trueni nad oeddwn yn gwybod amdano yn gynt, ond nid oedd wedi cael ei hysbysebu unrhyw le yn yr ysbyty.

Gwariais gyfanswm o £250 mewn ychydig fisoedd dim ond er mwyn mynd i'r ysbyty er mwyn i mi allu cael triniaeth i'm canser. Cafodd hyn effaith fawr ar fy sefyllfa ariannol, yn enwedig gan fy mod yn hunangyflogedig ac ni allwn weithio ar y pryd. Pan glywais fod yn rhaid i mi gael rhagor o lawdriniaeth penderfynais godi arian o'r cynllun pensiwn gan nad oeddwn am boeni am hynny unwaith eto.

'Dim ond un peth arall oedd petrol a pharcio i ddelio â hwy ar ben trefnu rhywun i ofalu am y plant, poeni am eu casglu a delio gyda fy nghanser.'

Y gost gudd o gael triniaeth

Mae llawer o gleifion canser a'u teuluoedd yn delio â baich ariannol trwm oherwydd eu salwch. Flwyddyn ers cyhoeddi aroddiad Macmillan, *Free at the Point of Delivery?*, dengys ein gwaith ymchwil newydd nad yw'r sefyllfa ariannol i bobl â chanser wedi gwella o gwbl. Mae cartrefi naw o bob 10 o gleifion canser yn colli incwm a/neu yn wynebu costau cynyddol o ganlyniad uniongyrchol i ganser.

Dengys y gwaith ymchwil hwn, sy'n deillio o fwy na 1,100 o gyfweiliadau gyda phobl yr effeithir arnynt gan ganser mai:

- Y gost fwyaf cyffredin sy'n wynebu cleifion canser yw'r gost o deithio i'r ysbyty a pharcio yno.
- Ar gyfartaledd mae cleifion sy'n wynebu'r costau hyn yn gwneud 53 o deithiau yn ystod eu triniaeth, a hynny'n yn costio £325 iddynt.
- Mae yna lawer gormod o gleifion canser nad ydynt yn cael gwybod am yr help a allai fod ar gael iddynt, fel y Cynllun Costau Teithio i'r Ysbyty neu Gynllun Incwm Isel y GIG.

Cefndir

Lansiodd Cymorth Canser Macmillan ei ymgyrch, *Better Deal*, er mwyn canolbwyntio ar un sgil effaith canser nad yw'n cael digon o gydnabyddiaeth: ei heffaith ar sefyllfaoedd ariannol cleifion.

Rhoddodd ein hadroddiad cynharach, *Free at the Point of Delivery?* a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2005, dystiolaeth ansoddol o gost gudd teithio i'r ysbyty a pharcio yno ar gyfer cleifion canser sy'n cael triniaeth. Mae'r darn o waith newydd hwn yn adeiladu ar y cyntaf. Mae'n atgyfnerthu difrifoldeb y pwysau ariannol sy'n wynebu cleifion canser ar adeg pan fyddant hwy, eu teuluoedd a'u gyrfaedd eisoes yn ymdopi â'r straen a ddaw yn sgil canser ac effeithiau gwanychol y driniaeth.

Pam y dylid rhoi blaenoriaeth i gostau teithio a pharcio?

Mae costau teithio a pharcio yn fater difrifol ar gyfer cleifion canser am dri rheswm:

- Dyma'r costau mwyaf cyffredin sy'n wynebu pobl yr effeithir arnynt gan ganser.
- Nid yw'r cynlluniau presennol yn gweithio ar gyfer cleifion canser.
- Mae llawer o bobl yn teithio i gael triniaeth canser; fel arfer nid oes ganddynt ddewis ond teithio mewn car.

Canfyddiadau allweddol

- Mae 91% o gartrefi cleifion canser yn colli incwm a/neu'n wynebu costau cynyddol o ganlyniad uniongyrchol i ganser.
 - Mae'r rhan fwyaf o gartrefi cleifion canser yn wynebu costau ychwanegol, mae bron pedwar o bob 10 (36%) hefyd yn colli incwm.
 - Mae'r sefyllfa ar gyfer pobl o dan 55 oed yn un fwy difrifol byth. Mae saith o bob 10 ohonynt yn colli incwm cartref.
 - Ymhlith y rhai sy'n colli incwm cartref, mae'r gostyngiad cyfartalog yn 50%.
 - Mae 70% o gleifion canser yn wynebu costau ychwanegol dim ond er mwyn cael eu triniaeth.
 - Mae 58% yn wynebu costau teithio i'r ysbyty/canol-fan driniaeth.
 - Mae 45% yn wynebu costau parcio tra'n cael triniaeth.
- Mae effaith gyfunol y costau teithio a pharcio yn golygu bod saith o bob 10 o gleifion ar eu colled drwy fynd i gael triniaeth. Mae hyn yn ychwanegol at gostau eraill a all gynnwys biliau cyfleustodau uwch, deiet arbennig, dillad, wigiau a thaliadau presgripsiwn.
- Ymhlith cleifion sy'n wynebu costau teithio, 53 yw nifer cyfartalog y teithiau a wneir yn ystod cyfnod eu triniaeth. Y gost gyfartalog am deithio a pharcio yw £325 fesul claf.

- **Dangosodd ein gwaith ymchwil bod y costau gwiri-oneddol ar gyfer teithio a pharcio, tra'n cael trini-aeth, yn amrywio o £10 i fwy na £10,000.**
Mae'r swm y bydd claf yn ei dalu yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau yn cynnwys y math o driniaeth sydd ei angen a hyd yr amser y maent yn sâl.
- **Mae'r gost o deithio a pharcio yn amrywio'n sylweddol ledled y DU.**
Mae ein gwaith ymchwil wedi nodi amrywiaeth mewn costau teithio ledled y wlad. Pan gyfunir hyn â nifer y teithiau y mae'n rhaid iddynt eu gwneud, gall gael effaith fawr ar y gost gyffredinol i gleifion. Gellir gweld hyn yn y canlyniadau ar gyfer De Orllewin Lloegr, lle y mae nifer o gleifion wedi bod yn sâl ers peth amser ac o ganlyniad wedi cronni costau enfawr (gweler Ffigur 1).
- **Nid yw 78% o'r rhai sy'n wynebu costau teithio a/neu gostau parcio wedi cael unrhyw gymorth ariannol i dalu am y costau hyn.**
Mae nifer fawr o'r rhai sydd yn cael cymorth yn dibynnu ar gymorth drwy grantiau elusennol neu gan ffrindiau neu deulu, yn hytrach na thrwy gynlluniau presennol y llywodraeth.
- **Nid yw dwy ran o dair o'r bobl nad ydynt yn cael cymorth i dalu costau teithio neu gostau parcio yn gwybod am y cynlluniau sy'n bodoli i helpu gyda'r costau hyn.**
Mae hyn er gwaethaf arweiniad gan y llywodraeth sy'n nodi y dylai ysbytai sôn am hyn wrth gleifion.

Dywedodd traean o gleifion eu bod yn cael mwy o anhawster i gynilo ar gyfer eu dyfodol, gan gynnwys cyfrannu tuag at eu pensiwn. Nododd eraill eu bod yn methu â thalu'r

morgais neu filiau cardiau credyd neu eu bod wedi cronni dyledion eraill. Roedd eraill yn cael trafferth i gynnal eu plant yn ariannol neu wedi gorfod symud i gartref rhatach.

Problemau gyda theithio a pharcio

Yn Free at the Point of Delivery? gwnaethom nodi'r cymorth sydd eisoes ar gael i gleifion ar incwm isel a thrafod y gostyngiadau a'r eithriadau sydd ar gael i gleifion sy'n parcio yn yr ysbyty.

Cynlluniau presennol

Mae gan gleifion y GIG sy'n cael budd-daliadau prawf modd penodol hawl i gael ad-daliad o'u costau teithio a'u costau parcio o dan y Cynllun Costau Teithio i'r Ysbyty (HTCS). Mae cynlluniau cyfwerth ar gael ym mhob un o'r cenhedloedd datganoledig. Yn yr Alban mae cynllun ar wahân nad yw'n gynllun prawf modd ar gael i drigolion yn Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban.

Mae canllawiau ar y cynlluniau hyn yn cynghori ysbytai i arddangos gwybodaeth mewn ardaloedd cleifion ac i ddweud wrth gleifion amdanynt mewn llythyrau apwyntiad a llythyrau derbyn claf i'r ysbyty.

Anhawster i gael cymorth statudol

Dangosodd y dystiolaeth yn *Free at the Point of Delivery?* mai dim ond 19% o weithwyr iechyd proffesiynol a ddywedodd bod cleifion yn cael eu hysbysu am y cynlluniau yn

	Nifer y teithiau ar gyfartaledd	Cost teithio fesul taith (£)	Cost parcio (3)	Canran sy'n wynebu costau parcio hefyd	Cyfanswm y gost ar gyfartaledd (3)
Gogledd Lloegr	41	5	2	56	250
Canolbarth/Dwyrain Lloegr	47	5	2	68	298
Llundain/De Ddwyrain Lloegr	64	5	3	62	439
De Orllewin Lloegr	101	7	2	46	792
Cymru	50	4	2	29	229
Yr Alban	37	10	2	34	395
Cyfartaledd	53	5	2	57	325

Ffigur 1; Amrywiaethau rhanbarthol mewn costau teithio

*Roedd y sampl yng Ngogledd Iwerddon yn rhy fach i ddarparu data cadarn.

'Rwyf wedi bod yn teithio yn ôl ac ymlaen i'r ysbyty ers wyth mis...mae parcio yn costio £3 yr awr a byddaf fel arfer yna am ddwy awr neu fwy. Gallwn gael tacsï yn lle gyrru ond mae hynny'n costio £10 bob tro beth bynnag. Roedd yn costio cymaint fel fy mod yn poeni amdano.'

unol â'r canllawiau. Gallai'r dulliau o hawlio costau teithio yn ôl fod yn fiwrocrataidd a gallent achosi straen i gleifion sy'n cael triniaeth canser.

Dengys ein gwaith ymchwil newydd:

- mai dim ond 4% o'r rhai sy'n wynebu costau teithio a/neu gostau parcio sy'n cael cymorth trwy gynlluniau presennol
- nad yw dwy ran o dair o'r bobl nad ydynt yn cael help gyda'r costau hyn yn gwybod bod y cynlluniau hyn yn bodoli.

Mae trafniadaeth gyhoeddus a thrafnidiaeth i gleifion yn anaddas

Mae'r Llywodraeth wedi awgrymu y gall y Gwasanaethau Trafnidiaeth i Gleifion ddiwallu anghenion teithio cleifion y mae angen meddygol am dtrafnidiaeth arnynt. Fodd bynnag, dengys Free at the Point of Delivery? nad yw hyn yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o gleifion canser oherwydd y teithiau hir lle yn aml caiff cleifion eu casglu ar ddechrau'r dydd a'u dychwelyd adref ar ddiwedd y dydd. Mae trafniadaeth gyhoeddus a thrafnidiaeth i gleifion hefyd yn anaddas i gleifion canser sydd ag imiwneidd gwan oherwydd eu triniaeth neu sy'n dioddef o sgîl-ffeithiau cemotherapi a radiotherapi, fel blinder a salwch. Fodd bynnag, nododd yr adroddiad bod defnyddio ceir ambiwlans yn opsiwn i gleifion canser.

Codi tâl am barcio ar gleifion canser

Yn 2005 cynhaliodd Macmillan archwiliad o gostau a pholisïau parcio ym mhrif ganolfannau canser y DU. Canfuwyd bod yr eithriadau a'r gostyngiadau sydd ar gael yn amrywio'n sylweddol. Mae cleifion yn teithio 53 o weithiau ar gyfartaledd felly mae tâl bach hyd yn oed yn gwneud gwahaniaeth. Er bod llawer o ysbytai yn darparu rhyw fath o gynllun disgownt, nid yw'r rhain yn cael eu hysbysebu bob amser ac yn aml nid ydynt yn cwmpasu cleifion sy'n teithio i gael triniaeth yn rheolaidd.

O'r rhai sydd â meysydd parcio, dim ond

- 3 o'r 43 o ganolfannau canser yn Lloegr
- 1 o'r 3 yng Nghymru
- 1 o'r 5 yn yr Alban
- 0 o'r 1 yng Ngogledd Iwerddon

sy'n darparu parcio am ddim i gleifion canser sy'n mynychu apwyntiadau.

Mae mwy o gleifion yn teithio i gael triniaeth yn rheolaidd

Mae triniaeth canser yn wahanol i driniaeth ar gyfer y rhan fwyaf o glefydau eraill: yn aml mae'n golygu teithio'n aml i'r ysbytai neu'r canolfannau triniaeth. Caiff mwy o gleifion canser bellach eu trin fel cleifion allanol. Gallai cwrs arferol o radiotherapi olygu teithio i'r ysbyty pob dydd am sawl wythnos. Rhoddir radiotherapi fel arfer mewn canolfannau triniaeth arbenigol, sy'n gwasanaethu dalgylch mawr. Er bod manteision sicr i hyn, mae'n rhaid i lawer o gleifion deithio'n bell ac mae hynny'n gostus.

Arbedion y GIG

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ysbytai wedi gwneud arbedion enfawr drwy drin cleifion fel cleifion allanol wrth roi triniaeth iddynt. Maent hefyd wedi creu refeniw ychwanegol trwy gyflwyno costau parcio, ac yna eu cynyddu. Mae'r ddau newid hyn wedi trosglwyddo peth o'r baich o ran costau canser i gleifion.

Mae Asiantaeth Moderneiddio ddylanwadol y GIG¹ wedi amcangyfrif y gallai ymddiriedolaethau arbed £200 trwy drin cleifion mewn meddygfeydd dydd yn hytrach na fel cleifion mewnol. Mae Macmillan yn amcangyfrif y gallai ysbyty arbed £6,000 trwy gynnig cwrs chwe wythnos o radiotherapi i bobl fel cleifion allanol. Gallai rhan fach o'r arbedion hyn gael ei defnyddio i helpu cleifion canser gyda'u costau teithio.

Enghraifft o arfer da: Churchill Hospital, Oxford

Mae pob claf radiotherapi a chemotherapi yn cael cerdyn parcio i'w arddangos yn eu ceir i'w galluogi i barcio am ddim (y gyfradd safonol ar gyfer parcio yn yr ysbyty yw £3).

Dywedir wrth gleifion am y cardiau parcio yn ystod eu hapwyntiad cyntaf cyn iddynt ddechrau cael triniaeth.

Mae'r ysbyty yn cydnabod y pwysigrwydd o roi cymorth i gleifion canser gyda'u costau parcio.

CAMAU I'W CYMRYD

Mynd i'r afael â chostau teithio a pharcio

Mae costau teithio a pharcio yn effeithio ar lawer o gleifion canser ar adeg pan na allant ei fforddio. Yn aml mae eu hincwm yn llai ac maent yn delio â'r straen a'r pryder a ddaw yn sgîl y clefyd a'i driniaeth. Bydd mynd i'r afael â'r costau hyn yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'w bywydau.

Adolygu cymorth gyda chostau teithio a pharcio

Credwn ei bod yn foesol anghywir gorfodi unrhyw glaf canser - waeth beth fo'i incwm - sy'n cael triniaeth reolaidd ar gyfer clefyd a allai fygwth bywyd, i dalu am gostau teithio a pharcio anochel. Ein gweledigaeth yw y dylai pob claf sy'n cael triniaeth canser fod â hawl i gael cymorth nad yw'n brawf modd o dan y Cynllun Costau Teithio i'r Ysbyty a chynlluniau cyfatebol.

Mae angen brys am adolygiad o'r cymorth ariannol sydd ar gael i gleifion sy'n teithio i gael triniaeth. Dylai'r adolygiad hwn ystyried:

- nifer presennol y bobl sy'n cael cymorth
- cyhoeddusrwydd ac ymwybyddiaeth o'r cynlluniau
- gweithdrefnau ad-dalu
- effeithiolrwydd y canllawiau a roddir i ysbytai

- amrywiaethau rhanbarthol o ran costau teithio a pharcio
- p'un a yw pobl â chanser yn cael eu trin yn deg o ran grwpiau eraill o bobl anabl a phobl heb anabledau
- argaeledd ceir ambiwlans ar gyfer pobl sydd ag imiwnedd gwan.

Dileu costau parcio

Credwn na ddylai cleifion canser sy'n teithio i gael triniaeth yn rheolaidd orfod talu am parcio. Rydym yn annog ymddiriedolaethau ysbytai a byrddau iechyd i ystyried effaith eu polisi parcio ar gleifion canser o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005.

Dileu tollau

Dylai cleifion sy'n teithio i'r ysbyty i gael triniaeth canser gael eu heithrio o'r holl daliadau a thollau am ddefnyddio ffyrdd, twneli a phontydd.

Ymgyrch Macmillan

Mae'n bwysig bod gwneuthurwyr polisi yn deall yr anawsterau sy'n wynebu cleifion canser. Rydym yn annog pobl yr effeithir arnynt gan ganser i gysylltu â'u cynrychiolwyr etholedig i adrodd eu hanes ac i'w hannog i gyflwyno'r mater hwn i weinidogion.

NI YW
MACMILLAN.
CYMORTH CANCER

Amcanion y gwaith ymchwil

Amcanion y gwaith ymchwil oedd ymchwilio i:

- effaith ariannol gyffredinol canser
- ymwybyddiaeth o'r buddiannau sydd ar gael i helpu gyda rhai o'r costau hyn a nifer y cleifion sy'n manteisio arnynt
- y goblygiadau i gleifion canser.

Methodoleg y gwaith ymchwil

Comisiynodd Macmillan asiantaeth ymchwil annibynnol, RDSi, i gyflawni'r gwaith hwn.

Cyfwelwyd ag ychydig dros 1,100 o bobl yr effeithir arnynt gan ganser; roedd 942 o'r rhain yn gleifion, a'r gweddill yn ofalwyr. Cafodd y rhan fwyaf o'r cyfweiliadau eu cynnal ar ffurf cyfweiliad 15 munud dros y ffôn; nid oedd rhai o'r ymatebwyr yn gallu cymryd rhan mewn cyfweiliad dros y ffôn felly anfonwyd arolwg atynt drwy'r post. Cafodd y cyfweiliadau eu cynnal rhwng mis Tachwedd 2005 a mis Chwefror 2006.

Cafodd y sampl o ymatebwyr ei chreu gan Macmillan trwy wneud cais am wirfoddolwyr i gymryd rhan. I sicrhau nad oedd hyn yn creu rhagfarn o ran y math o wirfoddolwyr ac felly hefyd yr ymatebion, roedd y ceisiadau yn disgrifio'r arolwg mewn termau cyffredinol iawn ac nid oedd yn sôn am y ffaith y byddai'n canolbwyntio ar effaith ariannol canser. Cafodd y sampl a dderbyniwyd ei phwysoli gan ystadegau gwladol ar gyfer y boblogaeth canser (rhyw, oedran, math o ganser) i sicrhau ei bod yn gynrychioliadol o'r sefyllfa genedlaethol.

Macmillan Cymorth Canser, 89 Albert Embankment, Llundain SE1 7UQ
Ffoniwch 020 7840 7840 Ffacs 020 7840 7841 www.macmillan.org.uk

h) Cymorth Canser Macmillan, Mehefin 2006

Cymorth Canser Macmillan yw enw masnachu Macmillan Cancer Relief, rhif elusen gofrestredig 261017. Rhif elusen Ynys Manaw 604.

MAC4031 WEL

Ayesha Owusu-Barnaby
Katie Austin
Amanda Fallows, Erda Ltd.
RDSi